PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 39 | Medi 26, 2024 | 50c.

## CAPEL HEOL AWST

### DERBYN AELODAU AC URDDO DIACONIAID

Hyfrydwch pur oedd gweld canol capel Heol Awst yn llawn ar gyfer oedfa hanner blynyddol 'gwahanol' a gafwyd brynhawn Sul, 8 Medi. Seiliwyd yr oedfa ar fywyd yr eglwys, a derbyniwyd pump o aelodau newydd o had yr eglwys a oedd yn dymuno dod yn aelodau cyflawn, ynghyd ag urddo pedwar diacon. Er i'r eglwys ethol pum diacon, ffaelodd Janet Evans bod yn bresennol gan ei bod yn yr ysbyty, a mynegwyd ein dymuniadau gorau ni iddi wella'n llwyr yn fuan.

**Croesawu**

Yn dilyn croeso cynnes ein gweinidog i bawb, yn arbennig i'r pregethwr gwadd, y Parchg Irfon Roberts, Aberteifi, a'r organydd gwadd Meirion Wynn Jones, canwyd yr emyn cyntaf 'Dyrchafwn ganiad newydd' o waith Amanwy a luniwyd ar gyfer dathlu canrif a hanner yr achos yng nghapel Gellimanwydd, Rhydaman. Yn dilyn y cyhoeddi a'r casglu, canwyd yr ail emyn'(Un sylfaen fawr yr Eglwys' cyn i Lloyd Jones ddarllen Salm 92, yr unig Salm a ysgrifennwyd ar gyfer y Saboth, ac i Joan Thomas weddïo.





**Da yw moliannu'r Arglwydd**

Ar ôl y trydydd emyn, 'O llanwa hwyliau d'Eglwys', testun Irfon Roberts oedd y Salm a ddarllenwyd yn gynharach yn yr oedfa. Mae'n Salm sy'n annog pobl i foli'r Arglwydd ar gân unrhyw adeg o'r dydd. Dyma'r Salm a ysgogodd Isaac Watts i gyfansoddi'r emyn 'Gwaith hyfryd iawn a melys yw moliannu d'enw di, o Dduw'. Cyfeiriodd at allu therapiwtig cerddoriaeth wrth egluro sut y defnyddiodd Dafydd ei delyn i dawelu Saul. Wrth fynd ymlaen cyfeiriodd at y pum aelod newydd a fwriodd eu gwreiddiau yn yr eglwys, a chael y cyfle i dyfu, yn arbennig mewn cariad

*parhad ar dudalen 2*

## Ewch ati gyda'r Ffynhonnau Byw

Tybed beth mae eich eglwys chi wedi ei wneud er mwyn codi arian tuag ar Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr eleni? Byddai'n braf gallu rhannu'r hanesion am y digwyddiadau ar dudalennau'r *Tyst*. Os nad ydych wedi cael cyfle eto i gynnal gweithgarwch beth am fynd ati yn ystod tymor yr hydref?

Mae Ffynhonnau Byw yn gyfle arbennig i ni fel eglwysi annibynnol i gydweithio er mwyn lliniaru tlodi ac anghyfiawnder, y tro hwn, yng Ngholombia.

Hoffem felly eich annog i fynd ati i godi arian, fel ein bod yn gallu anfon cyfanswm swmpus trwy Gymorth Cristnogol at y rhai hynny sy'n dioddef, er mwyn eu grymuso i ymgyrraedd at fywydau gwell.



# Teyrnged
## Y Parchedig T. J. Irfon Evans (1926–2024)

*Dyma ail ran teyrnged y Parchg Andrew Lenny i'r Parchg T. J. Irfon Evans.*

### De, Gogledd a Chanolbarth

Ym 1962 derbyniodd Irfon alwad gan eglwysi Tre-wen, Bryngwyn a Bethesda, Ponthirwaun. Yn dilyn cyfnod o saith mlynedd yno dychwelodd eto i'r gogledd yn weinidog Jerwsalem a Hyfrydfa, Blaenau Ffestiniog. Mynnodd Ceredigion ei hawlio am yr eildro a threuliodd ugain mlynedd olaf ei weinidogaeth yn weinidog eglwysi Soar, Llanbadarn-fawr a Noddfa, Bow Street cyn ychwanegu eglwysi Bethel, Talybont; Morfa, Borth a Salem, Coedgruffydd at ei ofalaeth ym 1987. Yn dilyn ei ymddeoliad ym 1993 bu'n gofalu yn rhan amser am eglwysi Ty'ngwndwn, Troedyrhiw a Nebo, Cross Inn.



### Adnabod y Gwaredwr

Roedd yna barch mawr i Irfon yn yr holl eglwysi bu'n gweinidogaethu ynddynt. Rhoes ei hunan yn gyfan i'r weinidogaeth heb arbed dim arno'i hunan. Roedd yn caru pobl yr Arglwydd ac fe gerddodd yr ail filltir drostynt a thros bobl y tu allan i'r eglwys droeon a thro. Roedd yna ddyhead dwfn yn ei galon ar i bobl ddod i adnabod yr Arglwydd fel eu Gwaredwr personol ac yna eu hannog i dyfu mewn gras a gwasanaethu'r Arglwydd yn ffyddlon. Byddai'n paratoi yn drylwyr ar gyfer y pulpud a'i bregethau Beiblaidd yn canoli ar ryfeddod gras a chariad Duw yn yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd Irfon yn llawenhau yn yr Efengyl ac roedd ef wrth ei fodd gyda chwpled o emyn Rhys Nicholas:

> Mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
> A rhoddaf Iesu fy mawrhad i ti.

### Cenhadaeth

Roedd ganddo ddiddordeb mawr yng ngwaith y Cyngor Cenhadol Byd-eang a thystiai i'r mwynhad a'r bendithion a ddaeth i'w ran o berthyn i fwrdd cenhadol Undeb yr Annibynwyr. Roedd mynychu Cyrddau Chwarter yn bwysig iawn iddo ynghyd â Chyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr.

### Tangnefeddwr

Braint i ni yn eglwys Seion, Aberystwyth oedd ei groesawu yn aelod yn 2014. Bu'n driw ac yn ffyddlon i'r holl oedfaon ac roedd ef wrth ei fodd yn y dosbarth Beiblaidd wythnosol wrth i ni drwy ras 'ddal ein gafael ar ddirgelwch y ffydd' (I Timotheus 3:9) , fel y mae'r apostol Paul yn ein siarsio ni i'w wneud. Mor braf oedd cael ei gwmni – un o'r anwylaf o blant dynion oedd yn meddu ar hiwmor iach, yn ŵr hynod o garedig, gwylaidd a diymhongar. Gwelai mai Tywysog Tangnefedd yw'r Arglwydd Iesu Grist a bod ei blant yn wneuthurwyr tangnefedd. Mynnai bod Crist yn galw arnom i ymroi i weithredoedd daionus ac i fentro ar fywyd o gariad a gwasanaeth ac aberth dros eraill. Rhoes Irfon ei hun yn olaf lawer tro er mwyn eraill gan fynnu dilyn ôl traed ei Waredwr. Diolch i Dduw am gael ei adnabod fel brawd yn y Ffydd.

'Cofia ddweud,' dywedodd wrthyf, 'pan fyddaf fi'n ymadael â'r fuchedd hon dim ond hyn sy'n farwol fydd yn y fynwent, aros yn ei gariad Ef fyddaf fi – nid yn unig yn aros ond yn aros ymlaen yn ei gariad Ef.'

> Ni ddelir un o'i blant
> er mynd i bant y bedd,
> fe'u gwelir ger ei fron
> yn llon eu gwedd.

Roedd ei angladd, yn ôl ei ddymuniad, yn hollol breifat ac yng ngofal ei feibion, Y Parchedig Deian Evans a Mr Wyn Evans. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i feibion Wyn a Deian, ei ferched yng nghyfraith Linda ac Annette, ei wyrion Gareth ac Iwan a'i briod Kelly, ei chwiorydd Eirwen a Berith a'i frawd Edryd, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol i gyd.

**Andrew Lenny**

# CAPEL HEOL AWST – *parhad*

a gwasanaethu cyd-ddyn. Hyd yn oed mewn anialwch, fel ein hoes ni, gellir tyfu a chynhyrchu ffrwyth, a thrwy wneud hynny, gyhoeddi bod yna weddill ffyddlon i'w cael o hyd. Emyn addas iawn, o waith John Roberts, sef 'Edrych ar y rhai sy'n ceisio', a ganwyd cyn i Beti-Wyn dderbyn y diaconiaid a'r aelodau ifanc wrth fwrdd y Cymun. Mae'n debyg mai 'Gweddi dros gymunwyr ieuainc' oedd y teitl a roddodd yr awdur i'r emyn. Cyn rhannu'r bara a'r gwin cyfeiriodd at golled yr eglwys ym marwolaeth ddiweddar Brian Thomas, aelod gweithgar o'r eglwys, a chydymdeimlwyd yn ddwys â Freda, y merched, a'r teulu.

### Boed gorfoledd

Yr emyn a ganwyd ar ddiwedd oedfa fendithiol a llawen iawn oedd yr emyn o fawl am yr eglwys, 'Am dy gysgod dros dy Eglwys' ar un o donau enwog Cymru, Coedmor, cyn i Beti-Wyn gyflwyno'r Fendith. Yn dilyn, parhawyd â'r gyfeillach, yn y festri, wrth fwynhau cwpanaid o de, cymdeithasu, a llongyfarch yr aelodau a'r diaconiaid newydd, gyda 'dy drugaredd yn ein cân'.

**Joan Thomas**

## Eglwys Nebo Felindre Abertawe

Cynhelir

## OEDFA ARBENNIG

i ddathlu

**Daucanmlwyddiant yr eglwys**

**Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024**

**am 2.00.**

**Llywydd:**
**Y Parchg Meirion Evans**
**Porth Tywyn**

**Croeso cynnes i bawb**

**Te'r dathlu, wedi'r oedfa, yn neuadd y pentref**

**Maes parcio: neuadd y pentref**

Yr Adran
Gydenwadol

MEDI 26 2024 RHIF 187


# Yr eglwys ddirgel yn Afghanistan

Open Doors

YR EGLWYS DDIRGEL YN AFGHANISTAN

## GWEDDÏWCH

- y bydd Duw yn amddiffyn credinwyr Afghanistan, yn eu cryfhau, yn eu cysuro ac yn rhoi gobaith iddynt;
- am ddoethineb a diogelwch i bartneriaid Open Doors sy'n gweithio ymhlith yr eglwys gyfrinachol yn Afghanistan.



Ym mis Awst dair blynedd yn ôl dychwelodd y Taliban i rym yn Afghanistan. Mae'n rhaid i Gristnogion yn y wlad sicrhau nad yw eu ffydd yn cael ei darganfod gan y bobl anghywir – ond mae eglwys gyfrinachol y wlad yn tyfu.

Ganed Khada* i deulu Mwslimaidd hynod grefyddol. Priododd ag Ehsan* ac roedd eu bywyd yn un hapus. Cyn i'r Taliban ddod i rym, roedd menywod Afghanistan yn aml yn cael swyddi ac roedd Khada'n gweithio mewn swyddfa lle daeth yn agos at ei phennaeth. "Fe ddaethon ni'n ffrindiau, ac roeddwn i'n teimlo'n rhydd o'i blaen hi," meddai Khada. Un diwrnod, gwnaeth pennaeth Khada benderfyniad hynod ddewr a rhoi Beibl i Khada.

Pan gyrhaeddodd Khada adref, dangosodd y Beibl i Ehsan. Doedden nhw ddim wedi darllen y Beibl o'r blaen ond roedden nhw'n chwilfrydig.

"Pan es i â'r llyfr adref a dechrau ei ddarllen gyda fy ngŵr, ar y dechrau daeth llawer o gwestiynau i'n meddyliau," meddai Khada. "Fe wnaethon ni ddatrys y cwestiynau hynny gyda'n gilydd." Yn y diwedd, fe wnaethon nhw benderfyniad dewr, a newid eu bywydau i ddilyn Iesu.

Roedd Khada ac Ehsan yn gwybod bod yn rhaid iddyn nhw gadw eu ffydd newydd yn gyfrinach rhag yr awdurdodau, ond fe benderfynon nhw fentro rhannu'r efengyl gyda'r teulu.

Dechreuon nhw gyda brawd Khada. "Roedd yn bryderus oherwydd diweithdra," meddai Khada. "Gofynnais iddo ddysgu straeon o'r Hen Destament, ac fe ddaeth i gredu. Yn ddiweddarach, rhannais straeon gyda fy nheulu, a daethant i gyd yn gredinwyr! Rhannodd fy ngŵr straeon gyda'i chwaer, a daeth hithau i gredu. Fe wnaethon ni ddal ati i ledaenu ein ffydd."

Roedd y pâr dewr hwn yn gweld eu hymdrechion yn dwyn ffrwyth ond roedd trasiedi rownd y gornel. Un diwrnod, pan oedd Ehsan ar ei ffordd i grŵp Beiblaidd tanddaearol, sylweddolodd fod ei ffydd gyfrinachol wedi'i darganfod.

"Cafodd ei ffôn ei ddiffodd a doedd hi ddim yn canu. Roeddwn i'n meddwl ar y dechrau efallai nad oedd ei ffôn yn gweithio," meddai Khada. "Fe wnes i hefyd alw rhywun o fy nheulu a doedd neb wedi clywed ganddo. Roeddwn i'n teimlo ofn a phob math o feddyliau." Ni chlywodd Khada ddim byd am ddau ddiwrnod, ac yna derbyniodd y newyddion yr oedd wedi bod yn ei ofni: roedd corff marw Ehsan wedi ei ddarganfod. Yr oedd wedi colli ei fywyd dros ei ffydd.

Roedd Khada wedi'i llorio'n llwyr. Roedd hi wedi dysgu am y gost enfawr o ddilyn Iesu ond roedd hi hefyd yn gwybod ei fod yn werth y gost honno. "Rwy'n parhau i fod yn was i Grist, gan ddilyn ei esiampl o ostyngeiddrwydd a mawredd," meddai.

Gweddïwch, os gwelwch yn dda:

- y bydd Duw yn amddiffyn credinwyr Afghanistan, yn eu cryfhau, yn eu cysuro ac yn rhoi gobaith iddynt;
- am ddoethineb a diogelwch i bartneriaid Open Doors sy'n gweithio ymhlith yr eglwys gyfrinachol yn Afghanistan.

** Enwau wedi'u newid am resymau diogelwch*

# Cenhadaeth, y Greadigaeth a Gogoniant Duw

**Paul Smethurst sy'n rhannu'r ffordd y mae'n gweld Duw yn defnyddio'r greadigaeth i ddatgelu ei ogoniant a bod hyn yn rhan annatod o genhadaeth. Mae Paul a'i wraig, Robyn, yn gweinidogaethu ac yn arloesi ym maes cenhadaeth ym Mannau Brycheiniog ar hyn o bryd, ac maent wedi gweld nifer yn cael eu denu'n agosach at ffydd drwy eu hymwneud â harddwch y fro.**

Ysgrifennodd y Salmydd y geiriau, "Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw." Gan ein bod yn byw ym Mannau Brycheiniog, gyda'u statws fel Gwarchodfa Awyr Dywyll, cawsom y fraint o gael seddi yn y rhes flaen i brofi'r realiti yma! Ac wrth wasanaethu yn y gymuned, rydym yn dysgu mor greiddiol genhadol yw datganiad y Salmydd.

Rydym ni'n cael ein hannog yn aml i 'ddarganfod yr hyn y mae Duw yn ei wneud, ac i ymuno gydag Ef yn Ei waith'. Ers i ni gyrraedd yma ym mis Chwefror y llynedd, un o'r pethau rydym ni wedi gweld Duw yn ei wneud yw datgelu rhywbeth o'i ogoniant i bobl drwy'r amgylchfyd naturiol.

Mae'n debyg mai llais tawel y mae rhai yn ei glywed. I eraill, mae ei lais yn cael ei foddi gan leisiau gwahanol. Ond eto, i eraill, yng ngeiriau cofiadwy Francis Schaeffer, mae'n glir 'ei fod yno ac nad yw'n ddistaw'. Felly, wrth weld beth mae Duw wrthi'n ei wneud, newidiodd y cwestiwn i: 'Sut ydyn ni'n ymuno gydag ef yn ei waith?'

Wedi'i guddio yn ochr y bryn ger Penybegwm, ddwy filltir a saith cant o droedfeddi yn uwch na'r pentref agosaf, y mae Capel Pen-yr-heol. Er mor bellennig ydyw, dyma'r lle y daethom ar draws y cyfleoedd gorau i ymuno â Duw yn y rhan hon o'i genhadaeth.

Gyda chefnogaeth Scripture Union Cymru, rydym wedi dechrau grŵp canol wythnos misol i bob oedran o'r enw 'Go Wild!' Mae ethos y clwb yn syml. Gan ddefnyddio amgylchedd hyfryd tir Capel Pen-yr-heol, rydym ni'n treulio amser gyda'n gilydd yn mwynhau ac yn archwilio'r greadigaeth, a hefyd yn dysgu am y Creawdwr.

Ambell fis, byddwch chi'n ein gweld yn adeiladu gwesty chwilod; dro arall, fe fyddwn ni'n darganfod defnydd i frigau a fyddai fel arall yn cael eu diosg a'u gadael. Ym misoedd tywyll y gaeaf, byddwn ni'n dysgu sut i ddarganfod Seren y Gogledd. Ac yna, wrth i ni ddod ynghyd i wneud siocled poeth, byddwn ni'n siarad am yr hyn rydym ni wedi'i weld a'i wneud.

Gyda'r greadigaeth yn gymorth gweledol a straeon y Beibl yn ysgogiad i ni, rydym ni'n annog ein gilydd â chalonnau agored i wrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthyn ni.

Dros y misoedd, mae'n hyfryd gweld ein cymuned yn araf dyfu mewn nifer, mewn chwilfrydedd a dealltwriaeth o'r Newyddion Da.

Mewn ffordd debyg, mae Duw hyd yn oed wedi defnyddio'r fynwent ym Mhen-yr-heol! Mae'r ardaloedd tawel a hynafol hyn wedi eu rhifo ymhlith y cynefinoedd mwyaf bioamrywiol yn ein gwlad.

Wrth gydnabod hyn, mae A Rocha UK, sefydliad cadwraethol Cristnogol, wedi sefydlu wythnos 'Eglwysi'n Cyfri Natur'. Mae'r wythnos yn cael ei chynnal bob mis Mehefin ac yn rhoi cyfle i'r gymuned wneud awdit o fyd natur mynwentydd a thiroedd eglwysi. Ar ôl gwasanaeth i bob oed, aethon ni wedyn i archwilio a gwneud cofnod o'r hyn wnaethom ni ei ddarganfod ym Mhen-yr-heol. Cam bach oedd hwn, a chyfle arall i ofalu am greadigaeth Duw ac amlygu ei ogoniant.

Felly, beth mae Duw yn ei wneud? Dyma gyfieithiad Eugene Peterson o eiriau'r Salmydd, 'God's glory is on tour in the skies'.

Rydym ni wrth ein bodd yn ymuno ag Ef a bod yn *roadies* iddo!

# Cymru Masnach Deg




Eleni, mae Cymru Masnach Deg yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed, a threfnwyd llawer o ddigwyddiadau i nodi hyn. Bu'r eglwysi'n gefnogol iawn i waith y mudiad, ac mae'r Parchg Jeff Williams yn un o'i noddwyr amlycaf.

Thema'r mudiad eleni yw 'Cynrychioli'r Newid', gan sylweddoli y gall pob un ohonom ddylanwadu ar y sefyllfa.

Yn hytrach na chynnal y pythefnos arferol yn y gwanwyn, cynhaliwyd pythefnos o ddigwyddiadau eleni, o'r 9fed hyd y 22ain o Fedi. Gwir dweud bod angen cefnogaeth ar y mudiad drwy'r flwyddyn, ac os bydd eich eglwys neu eich ardal am drefnu rhywbeth unrhyw bryd, yna bydd y swyddfa yn y Deml Heddwch yn ddigon hapus i rannu gwybodaeth a chynnig syniadau i chi.

Dymuniad Cymru Masnach Deg yw meithrin dealltwriaeth o'r amcanion a gweld mwy o grwpiau yn uniaethu â'u nod. Amcan y mudiad yw bod yn gatalydd sy'n gweithio o blaid hyrwyddo, cefnogi a grymuso amaethwyr a chynhyrchwyr mewn gwledydd tlawd, gan gredu bod hawl gan bob amaethwr i gael pris rhesymol a bywoliaeth deg, lle bynnag maent yn byw. Yn 2008 daeth Cymru yn genedl Masnach Deg, y genedl gyntaf yn y byd i wneud hynny.

**Beth allwn ni ei wneud?**

Gallwn gysylltu â'n Haelod Seneddol a'i (g)wahodd i uniaethu â'r mudiad. Byddai deall bod aelodau senedd-dai San Steffan a Chaerdydd yn barod i ddangos eu cefnogaeth yn gam mawr ymlaen.

Beth am neilltuo rhan o oedfa neu gwrdd wythnosol i addysgu pobl am y gwaith, neu ran o gyfarfodydd ar y cyd, yn enwadol neu'n gydenwadol? Byddai cynnal pryd bwyd ar y cyd, gan ddefnyddio bwydydd sy'n cario bathodyn Masnach Deg/Fairtrade yn gam ymlaen, a byddai gwahodd yr Aelod Seneddol yn fodd o ganolbwyntio meddyliau pawb ar y gwaith.


Gellir cysylltu drwy anfon yn uniongyrchol at: Cymru Masnach Deg, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP; ffôn – 07772 032142; e-bost – info@fairtradewales.org.uk.

Beth amdani? Addysgwn ein hunain, a mentro gwneud gwahaniaeth er mwyn eraill a herio tlodi byd-eang.

*Denzil John*

## *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

### 3. 'Adref i Fethlehem a theyrngarwch Ruth!' (Ruth 1:6–18)

Wrth inni gyrraedd adnod 6, mae Naomi wedi colli ei gŵr a'i dau fab ac yn penderfynu dychwelyd i Fethlehem. Wrth ddod i adnabod Naomi yma, mae'n rhesymol dod i'r casgliad nad oedd gadael Jwda am dir Moab yn benderfyniad oedd wrth fodd ei chalon o'r cychwyn. Eto, roedd wedi cytuno i symud, ond cytuno, o bosib, i fynd yno *dros dro* wnaeth Naomi. Mae dirnadaeth Naomi o'i sefyllfa a'i phenderfyniad wedyn i fynd adref yn seiliedig ar ffaith, nid mympwy. Y ffaith ydy ei bod yn mynd yn ôl at ei phobl, ond yn fwy at Dduw ei phobl a'i Duw hi. Yn ymarferol hefyd, mae Naomi wedi clywed bod, 'i'r ARGLWYDD ymweld â'i bobl a rhoi bwyd iddynt'. Mae'r Arglwydd yn ganolog i'w phenderfyniad. Eto, fedrai Naomi ddim dychmygu bod 'na lawenydd yn ei disgwyl gartref; dod adref yr oedd Naomi am mai dyna oedd y *peth iawn i'w wneud*, ac wrth ddod adref wynebu'r canlyniadau.

Wedi penderfynu cychwyn am Fethlehem, mae ei dwy ferch yng nghyfraith, Orpa a Ruth, yn ymuno hefo hi ar y daith. Roeddwn yn cyfeirio'r tro diwethaf at enwau'r dynion, a heddiw trown at enwau'r merched. Ystyr Naomi ydy 'daioni prydferth'; mae enw Orpa yn golygu 'elain', carw ifanc benywaidd, a Ruth yn golygu 'ffrind'.

Ond, wrth gychwyn ar y daith, cymell ei dwy ferch yng nghyfraith i aros yn Moab y mae Naomi, a dweud, 'a bydded yr ARGLWYDD mor garedig wrthych chwi ag y buoch chwi wrth y rhai a fu farw ac wrthyf finnau' (adn. 8). Mae'n arwyddocaol bod Naomi yma, wrth eu perswadio i aros ym Moab, yn defnyddio'r enw Hebraeg 'Yahweh' (Arglwydd), yn hytrach na defnyddio'r enw 'Chemosh', sef duw'r Moabiaid. Dymuniad calon Naomi ydy iddynt gael 'cartref gyda gŵr' (adn. 9). Wrth ddisgrifio'r ddwy, mae Naomi'n eu galw'n 'garedig'; y gair Hebraeg yma ydy 'chesedd', sy'n golygu cariad neu deyrngarwch ac sydd hefyd yn gallu golygu 'gras', gair y down i wybod ei ystyr yn gyflawn yn Iesu Grist.

Cariad at Naomi sy'n cymell y ddwy ferch i fynd ar y daith i Fethlehem, ond eu gwrthod wna'r fam yng nghyfraith a'u hannog i aros ym Moab. Eu gwrthod, gan gyflwyno'i hachos, braidd fel bargyfreithiwr wna Naomi. Hynny yw, doedd dim dyfodol ymarferol iddynt ym Methlehem (adn. 11–13).

Yn anfoddog iawn mae Orpa yn ffarwelio â Naomi, 'ond glynodd Ruth wrthi' (adn. 14). Mae'r 'glynu' yma'n amlwg yn Diarhebion 17:17: 'Y mae cyfaill yn gyfaill bob amser.' Mae adnodau 16 ac 17 yn cael eu hadnabod fel cerdd hyfryd o ymrwymiad Ruth i Naomi, a hynny wrth i'w ffyddlondeb droi'n ffydd. Ac wrth ddweud, 'fel hyn y gwnelo'r ARGLWYDD i mi', mae Ruth yn dangos ei hadnabyddiaeth bersonol ei hun erbyn hyn o Yahweh, adnabyddiaeth y mae Ruth wedi ei dysgu oddi wrth Naomi.

**Cwestiynau i'w trafod:**

1. 'Gwneud y peth iawn, am mai dyna'r unig ddewis i'r Cristion.' Trafodwch.
2. Sut mae 'gras' yn cael ei gyfleu yn adnod 8?
3. Fel Naomi i Ruth, pwy sydd wedi bod yn esiampl o ffydd i chi?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 29 Medi am 7.30yh – R. S. Thomas**
Bydd Rhodri Gomer yn ymweld ag Aberdaron i ddathlu bywyd a gwaith y bardd a'r offeiriad R .S. Thomas, a dysgu mwy am ei ddyled i rai o'n hemynwyr enwocaf. Ymhlith y gwesteion bydd yr Athro M. Wynn Thomas, Nathan Munday a Gwenan Gibbard. A chawn fwynhau gwledd o gerddoriaeth a chanu mawl yng nghwmni Côr yr Heli.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 29 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Jim Clarke, Llanfair-pwll

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 29 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Huw Dylan, Llangwm




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Tramor

## Cymorth Cristnogol

**Mae Cymorth Cristnogol yn ein hannog i gofio yn gyson am y rhyfela gwaedlyd yn Gaza.**

Yn eu gohebiaeth ddiweddaraf dywedant. ‘Mae’r gwrthdaro yn Gaza’n effeithio bywydau pobl ddiniwed yn aruthrol. Mae ein partneriaid yn darparu cymorth seicolegol, cymorth meddygol a mentrau a arweinir gan y gymuned i ddarparu bwyd, lloches, glanweithdra ac arian parod. Gyda’ch cefnogaeth a’ch gweddïau, gallwn gyrraedd mwy o bobl. I gefnogi ein hapêl Gaza yn eich eglwys chi, lawrlwythwch ein hadnoddau o’n gwefan: https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/gazaappeal/resources”

## Tlodi Plant

Mae mudiad UNICEF ar hyn o bryd yn tynnu ein sylw at dlodi plant yn fyd-eang. Nid mater o arian yn unig yw tlodi; mae'n fater amlochrog. I blant, gall tlodi olygu peidio â chael: bwyd maethlon; lle i’w alw’n gartref; triniaeth pan yn sâl neu fynediad i addysg. Mae'r dioddefaint yn llawer gwaeth i’r rhai sy’n byw ynghanol argyfwng dyngarol. Ar ben hyn y mae’r perygl i ferched yn llawer uwch oherwydd rhagfarnau rhywedd dwfn ac anghydraddoldeb sy’n cyfyngu yn ddirfawr arnynt. Hyd yn oed yn y deugain gwlad gyfoethocaf yn y byd, mae mwy nac 1 o bob 5 plentyn yn byw mewn tlodi.

Cofiwn yn ein gweddïau:
Am blant tlawd diamddiffyn.
Am yr asiantaethau sy’n ceisio eu cynorthywo.



# Gweddi 5: Tyrd i deyrnasu

Yn y gyfres achlysurol hon rydym wedi bod yn ystyried pwysigrwydd gweddi fel rhan o fywyd dyddiol y Cristion ac fel gweithgarwch hanfodol ym mhob eglwys. Un o gyfarfodydd pwysicaf pob eglwys yw’r cwrdd gweddi. Mae hwn yn gyfarfod agored i bawb gael cyfle i fyfyrio ar adnodau o’r Beibl, rhannu profiadau, trafod digwyddiadau, cynnig testunau gweddi a’u cyflwyno i’r Arglwydd gyda’n gilydd. Wrth fynychu cawn addoli Duw a thyfu yn ein ffydd a’n dealltwriaeth o ryfeddod tragwyddol ein Ceidwad Iesu Grist.

Y tro hwn rydym am edrych ar y rhan nesaf o’r weddi roddodd Iesu fel canllaw inni. Y cymal nesaf yw:

> Dy’n ni eisiau i ti ddod i deyrnasu,
> ac i’r cwbl sy’n dda yn dy olwg di
> ddigwydd yma ar y ddaear fel mae’n
> digwydd yn y nefoedd.
>
> Math. 6: 10 beibl.net

### Deled dy deyrnas

Wrth weddïo’r geiriau hyn rydym yn mynegi’r dyhead i Dduw ddod i



deyrnasu’n llwyr yn y greadigaeth a’r byd, yn ein cymdeithas ac ym mywydau unigolion. Rydym yn byw mewn byd syrthiedig sy’n llawn eilunaddoliaeth, materoldeb, trachwant, gwrthdaro, creulondeb, tristwch, salwch, newyn a thrais. Nid dyma yw bwriad Duw ar ein cyfer. Ei fwriad Ef oedd ein bod yn byw mewn byd o ddedwyddwch, digonedd a thangnefedd. Ac mae hynny’n golygu fod yn rhaid i Dduw fod yn teyrnasu trosom. Dyma pam y daeth i’n plith ym mherson yr Arglwydd Iesu. A phan mae teyrnas Dduw yn dod fe ddaw â newyddion da, achubiaeth a gobaith. Fe ddaw â chariad, cyfiawnder a thangnefedd a rhyw ddydd bydd y deyrnas yn dod yn ei chyflawnder yn yr Iesu. Mae’r cymal nesaf yn ategu hyn:

> ac i’r cwbl sy’n dda yn dy olwg di
> ddigwydd yma ar y ddaear fel mae’n
> digwydd yn y nefoedd.

### Gwneler dy ewyllys

Yma fe weddïwn y bydd ewyllys Duw yn cael ei wneud yn ein plith. Wrth ofyn bod ewyllys Duw yn cael ei wneud mae hyn yn golygu ildio ein hewyllys ni ein hunain i ewyllys Duw. Nid yw hyn yn beth rhwydd i’w wneud oherwydd y mae’n cymryd ffydd. Yn aml fe weddïwn am bethau penodol ac nid yw ein gweddi yn cael eu hateb fel y dymunem. Un rheswm am hyn yw nad yw ewyllys Duw yn unol â’n hewyllys ni. Gall hyn achosi i bobl gefnu ar Dduw gan eu bod tybio nad yw’n gwrando ar eu gweddïau. Mae hyn yn hunandybus oherwydd y gallwn gredu ein bod ni yn gwybod yn well na’r Duw hollalluog beth ddylai ei wneud. Wrth weddïo rhaid cydnabod bod Duw yn

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Llanfair Pen-rhys

Cwestiwn i ddechrau. Beth sy'n digwydd yn eich capel lleol chi yn wythnosol? Ydych chi'n cynnal oedfa bob Sul? Oes gennych chi ysgol Sul i blant a phobl ifanc ac/neu oedolion? Ambell ddosbarth Beiblaidd tybed?

Bythefnos yn ôl teithiodd llond bws o aelodau Peniel a Bwlch-y-corn, Caerfyrddin draw i Ben-rhys, Y Rhondda. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i bawb! Gweld eglwys ar waith gyda chyn lleied o adnoddau. Eglwys sy'n wirioneddol dlawd yn faterol ond sy'n gyfoethog yn ysbrydol. Eglwys sydd â 'gweledigaeth' eglur! Eglwys llawn croeso, llawn cariad. Eglwys sydd wedi ei gosod ar fryn, ac ni ellir ei chuddio. Eglwys heb unrhyw fath o gimics.

### Cyffwrdd yr enaid

Wedi paned a rhywbeth i'w fwyta, cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad i weld yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan y criw ffyddlon o wirfoddolwyr. Roedd yr oedfa am 3:00 y pnawn yn un a oedd yn cyffwrdd â'r enaid! Cofiwn wrth gwrs am waith a gweinidogaeth gyfoethog y Parchg Ddr John Morgans a'i ddiweddar briod Norah, a gyda'r un llawenydd y tystiwn i lafur caled a diflino Sharon Rees sydd wrth y llyw erbyn hyn. Cysegrodd hi ei bywyd yn llwyr ers dros ddeng mlynedd ar hugain i'r teuluoedd ym Mhen-rhys. Teuluoedd a ddaw i alw am air o gysur, paned neu fwyd. Clywsom wraig yn tystio yn yr oedfa fod bywyd eglwys Llanfair yn ffocws hollbwysig i'w bywyd ac roedd tair merch ifanc yn llawn gwerthfawrogiad o gynhaliaeth a chariad eglwys Llanfair.



### Cydenwadol

Ariennir yr eglwys gan wyth enwad yma yng Nghymru, ond erbyn hyn does yna ddim gweinidog ordeiniedig llawn amser yn arwain. Sharon a gwirfoddolwyr o'r stad sy'n cynnal gweithgaredd a thystiolaeth yr Eglwys, a hynny mewn dulliau effeithiol iawn. Tywyll yw'r gobaith o gael gweinidog ond mae'r trigolion yn frwd am gadw'r fflam ynghyn doed a ddel.



### Amserlen lawn

Wrth edrych ar amserlen waith Llanfair, Pen-rhys, gwelir y cyfeillion yn cyflawni gweinidogaethau amrywiol. Oes gan eich eglwys chi raglen waith debyg i hon?

*Dydd Sul*
2:00: ysgol Sul. 3:00: oedfa i bob oedran

*Dydd Llun*
9:00: addoliad yng nghwmni disgyblion ysgol gynradd Pen-rhys.
11:00–1:00: astudiaeth Feiblaidd 'Dosbarth Meithrin Oedolion'.
6:00–7:30: grwpiau bechgyn a merched yn eu harddegau.

*Dydd Mawrth*
5:00-6:00: dosbarth gwaith cartref, cynradd
6:00-7:00: dosbarth gwaith cartref, uwchradd

*Dydd Mercher*
12:00–1:30: babanod a thwts.
10:30–12:30: syrjeri dai.
2:30: oedfa gymun.
5:00–7:00: noson plant a'u teuluoedd yn y caffi.

*Dydd Iau*
6:00–7:00: noson plant a'u teuluoedd yn y caffi.

*Dydd Gwener*
10:00–12:00: 'Aelwyd Gynnes', bore coffi. Taith gerdded er lles yr hunan.

At hyn i gyd, mae'r gwirfoddolwyr yn rhedeg banc bwyd, yn ailgylchu hen deganau, celfi a dillad ar gyfer yr anghenus sy'n byw ym Mhen-rhys. Dyna beth yw rhaglen waith! Rhaid cyfaddef bod mynd i Ben-rhys o dro i dro yn fwyd i'm henaid.



### Negyddiaeth

Gorau i gyd, cynta i gyd y gwelwn, derbyn a deall neges Llanfair Pen-rhys. A bod yn onest, dw i wedi blino clywed sylwadau negyddol gan aelodau eglwysi o bob enwad, am gyflwr truenus Cristnogaeth. Mae bod yn negyddol yn lladd unrhyw obaith am adnewyddiad! Dengys Llanfair erbyn hyn nad oes rhaid wrth weinidog; mae lleygwyr Pen-rhys yn 'arwain' llawn cystal, a hynny'n ystyrlon a deallus oherwydd bod y cyn-weinidog wedi eu paratoi ar gyfer y cyfnod anodd hwn.

### Diwygio nid diwygiad

I eglwys neu gylch o eglwysi i 'alw' gweinidog heddi, mater o amddifadu eglwys neu'r ofalaeth arall yw hi. Rhaid i'r nonsens hyn beidio â bod. Rhaid wrth fagu arweinwyr o fewn ein heglwysi ... cyn y bydd hi'n rhy hwyr! Tybiaf ei bod hi 'tua dwy funud i ganol nos' ar ganran helaeth o'r eglwysi sy'n weddill gennym fel enwadau. Mae angen 'diwygio', na, nid 'diwygiad' ddwedes i ond 'diwygio'! Ac mae Duw wedi rhoi'r cyfle i ni ddiwygio'n heglwysi a'r weinidogaeth ers blynyddoedd bellach.

### Ysgol brofiad

Rhyfeddod i mi yw na fanteisiwyd ar osod myfyrwyr diwinyddol ar brofiad gwaith yn Llanfair! Sut yn y byd oedd ein Colegau Diwinyddol ni mor ffrwyn-ddall? Gwelodd yr Eglwys ym Madagascar werth yn Llanfair drwy anfon eu pobl draw i Ben-rhys dros y degawdau i ddysgu a rhannu sgiliau newydd. Ar y Sul yr oeddem ni yno, cyfarfuom â myfyrwraig ifanc o'r Eglwys yn Ne Korea, a phâr ifanc o Eglwys yn Slofacia – y tri'n ennill profiad gwaith ar gyfer mynd yn ôl i wasanaethu eu heglwysi dan nawdd cynllun 'Time for God'. Biti garw na chafodd y myfyriwr diwinyddol prin a fagwyd yn ein heglwysi ni yma yng Nghymru dros y deugain mlynedd olaf, y profiad o fyw a gweithio ym Mhen-rhys fel rhan o'u hyfforddiant. Diffyg gweledigaeth a dealltwriaeth ar ran ein hyfforddwyr diwinyddol tybed?

### Cariad

Wrth gloi'r gwasanaeth y pnawn Sul hwnnw, rhannodd Anne Lord sawl diffiniad o 'gariad' ym Mhen-rhys. Dyma dri:

Cariad ym Mhen-rhys ydi cynnal teulu drwy salwch difrifol a galar.
Cariad ym Mhen-rhys ydi gwybod bod rhywun wastad yno i ni.
Cariad ym Mhen-rhys ydi gweithio gyda'n gilydd er mwyn gwella'r sefyllfa.

Ffrind, os yw'r storm heddi yn peri ofn i ni a'n cydaddolwyr sydd yn yr un cwch â ni, a'n bod ofn gweld ein cymdeithas Gristnogol leol yn suddo dan y don, yna mentrwn allan o'n cychau fel ag y gwnaeth cyfeillion Llanfair, Pen-rhys. Mae Sharon a'r criw yn dyst bod yna fywyd wedi marwolaeth a bod newid yn dda i ni. Beth amdani, dwedwch? Dyw hi ddim yn rhy hwyr. Heb fenter, heb ddim!

**Tom Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gweddi 5: Tyrd i deyrnasu – *parhad*

gwybod yn well na ni. Felly, rhaid ildio ein hewyllys i'w ewyllys Ef. Yr enghraifft amlwg o hyn yw Iesu yn Gethsemane. Yno dywedodd Iesu:

> 'Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan chwerw yma oddi arna i. Ond paid gwneud beth dw i eisiau, gwna beth rwyt ti eisiau.'
>
> Luc 22:42

Mae Iesu yn gofyn i'w Dad gymryd y dioddefaint chwerw yr oedd i'w brofi ar y groes oddi arno, ond yna fe ychwanega, 'paid gwneud yr hyn dwi eisiau, ond beth wyt ti ei eisiau.' Mae hyn yn anodd ac yn gofyn am ffydd yn sofraniaeth Duw. Rhaid sylweddoli y gall gweddi fod yn anodd yn enwedig pan na chawn yr hyn yr ydym yn dyheu amdano. Yn waelodol ewyllys Duw yw bod pobl yn ei garu Ef ac yn caru ei gilydd. Rydym am i'r ddaear felly fod fel y nef. Sut le yw'r nefoedd? Wel, yno mae Duw yn teyrnasu yn ei gariad a'i berffeithrwydd, lle nad oes dioddefaint, tlodi, salwch, marwolaeth, gwrthdaro, anhapusrwydd na galar. Felly, rydym yn gweddïo ar i'r ddaear fod felly gan weithio yn erbyn y pethau hynny sy'n tanseilio ewyllys Duw. Gwneud y ddaear fel y nef ac fe ddigwydd hynny trwy Iesu Grist.









Eglwysi Bethesda'r Tymbl, Capel Seion
Drefach a Nasareth Pontiets

Bydd ein Gweinidog Y Parch Gwyn Elfyn yn ymddeol ar ddiwedd Rhagfyr 2024 ac mae swyddogion ac aelodau y dair Eglwys yn dymuno galw Gweinidog newydd.

Gwahoddir Gweinidogion ordeiniedig neu rai o dan hyfforddiant i gysylltu er mwyn cael mwy o fanylion gydag un o'r canlynol:-

**Elen Davies**
**E-bost:** elentyrdynol@yahoo.co.uk
Rhif ffon: 07742 560478

neu

**Heddwyn Jones**
**E-bost:** dacefit240@yahoo.co.uk
**Rhif ffon:** 07773 959533

neu

**Gethin Thomas**
**E-bost:** gethintthomas@googlemail.com
**Rhif ffon:** 07773 688769

**Cysyllter erbyn Hydref 31ain 2024**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*